



# barcud

## Disgrifiad Swydd

### Uwch-swyddog Contractau

Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel arall

**Yn atebol i'r canlynol:** Pennaeth Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig

**Yn gyfrifol am y canlynol:** Swyddogion Contractau x 3

#### Trosolwg:

Cynorthwyo'r Pennaeth Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig y broses o gyflawni rhaglenni Barcud ym maes Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, trwy reoli contractau'n gadarn mewn modd sy'n galluogi Barcud i gyflawni ei cyfrifoldebau rheoleiddio, amcanion busnes a diwallu anghenion ei denantiaid.

#### Cyfrifoldebau allweddol

##### Rheoli contractau:

- Goruwchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw a chydymffurfio wedi'i gynllunio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i breswylwyr a lles-ddeiliaid Barcud
- Goruchwylio'r gwaith o reoli, monitro a pherfformiad contractau darparwyr sy'n cyflawni gweithgareddau i Barcud ym maes Cydymffurfio a Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig, gan sicrhau bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu'n gyson a bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau bob amser.
- Datblygu a gweithredu rhaglen Barcud ym maes Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig a chydymffurfiaeth, gan gynnig tendro pecynnau gwaith.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisiau a phrosesau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio a gwaith cynnal a chadw arfaethedig gan gynnwys cynhyrchu manylebau.
- Goruwchwylio cyllid a risg rhaglenni gwaith cydymffurfiaeth.
- Cael yr holl gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni gwaith arfaethedig y bwriedir eu cyflawni er enghraifft yng nghyswllt y Rheoliadau Adeiladu (dylunio a Rheoli).
- Darpari cyngor technegol ar faterion adeiladu a chydymffurfiaeth ar sail cyd-destun stoc y Gymdeithas.

- Goruwchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen dreigl o arolygu cyflwr stoc ac arolygon WHQS2 gan sicrhau bod y wybodaeth am gyflwr a gedwir yn gywir ac yn gyflawn.
- Goruwchwilio rhaglenni Asesiadau Risg Tân (FRA) ac Archwilio Drysau Tân (FDI) Barcud gan sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn unol a'r Ddeddfwriaeth gyfredol. Sicrhau bod camau adferol yn cael eu cwblhau yn unol a'r asesiadau.
- Goruwchwilio'r contractiau cynnal a chadw tir gan gynnwys rheoli diogelwch coed a gwaith cynnal a chadw cychol cysylltiedig.
- Goruwchwilio'r contractiau cynlluniedig a chydymffurfiaeth eraill yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth Cynnal a Chadw a Chydymffurfiaeth Cynlluniedig/Cyfarwydder Datblygu a Rheoli Asedau.
- Cynorthwyo i sicrhau bod eiddo Barcud yn ddiogel ac yn addas ar gyfer cynefin dynol, trwy reoli gwaith sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch.
- Darparu cyngor technegol, cydymffurfiaeth a iechyd a diogelwch i ymwneud a phortffolio tai Barcud.
- Goruchwylio'r gwaith o ymdrin ag ymholiadau tenantiaid ynghylch Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig a chydymffurfiaeth, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir.
- Ymgynghori â phreswylwyr ynghylch rhaglenni Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig chydymffurfiaeth.
- Cynnal ymgynghoriadau Adran 20 ar gyfer gwaith mawr wedi'i gynllunio a gwaith cydymffurfio.
- Awdurdodi gwariant yn unol â Rheolau Sefydlog, Rheoliadau ariannol ac Awdurdodau Dirprwyedig.

#### **Pobl:**

- Arwain, goruwchwylio ac ysgogi tîm staff dynodedig i sicrhau fod gwasanaethau cynlluniedig a chydymffurfiaeth yn cael ei ddarparu mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Goruwchwilio staff gan gynnwys cyfarfodydd 1-1 rheolaidd, adolygiadau datblygiadau gweithwyr ag ati.
- Darparu cefnogaeth, hyfforddi a mentora i staff dynodedig, nodi anghenion hyfforddi a datblygu, a sicrhau fod cynlluniau ar waith i fyn i'r afael â hwy.
- Hybu diwylliant o gyflawni'n dda, sy'n hybu gwelliant parhaus ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rhannu gwybodaeth am flaenoriaethau, cynlluniau, gweledigaeth ac amcanion y Gymdeithas er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol gan fodloni'r safonau gwasanaeth a'r targedau a gytunwyd.

#### **Corfforaethol:**

- Hybu, datblygu a rheoli partneriaethau effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Hybu mentrau iechyd a lles ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Darparu gwasanaeth ardderchog i bob cwsmer mewnol ac allanol.
- Gweithio'n unol â pholisiau'r Gymdeithas ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser ac ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.

- Sicrhau bod y Gymdeithas a'i gweithwyr yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a rheoleiddiol ynghyd ag arfer gorau.
- Ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas, hyrwyddo systemau cyfathrebu effeithiol, rhagoriaeth o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, a ffocws ar wella'n barhaus.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y gallai fod yn rhesymol gofyn i ddeiliad y swydd eu cyflawni.

*Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gyflawn, ac o gofio y bydd gofynion, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid, efallai y bydd angen adolygu a diwygio'r dyletswyddau fel y bernir yn rhesymol ac yn briodol.*



# barcud

## Manyleb Person

### Uwch-swyddog Contractau

Mae'r fanyleb person hon yn nodi'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swydd yr Uwch-swyddog Contractau yn Barcud. Mae'r holl sgiliau a'r holl brofiad yn hanfodol oni nodir yn benodol eu bod yn ddymunol (D).

#### Cymwysterau

- Cymhwyster HND mewn Astudiaethau Adeiladu neu Reoli Adeiladu neu gymhwyster cyfwerth yn ymwneud ag adeiladu.
- Yn aelod o gorff proffesiynol perthnasol. (D)
- Wedi cael addysg i lefel Safon Uwch neu lefel gyfwerth.
- Tystiolaeth bod gwybodaeth broffesiynol yn cael ei datblygu'n barhaus.

#### Profiad

- Profiad o gyflwyno rhaglenni gwaith cynnal a chadw arfaethedig a chylchol.
- Profiad o arwain, er enghraifft arwain timau prosiectau Gwaith Cynnal a Chadw Arfaethedig.
- Profiad o reoli tîm o staff a chyflawni cyfrifoldebau goruchwyllo. (D)
- Profiad o reoli perfformiad tîm. (D)
- Profiad o oruchwyllo a llunio manylebau gwaith.
- Profiad o oruchwyllo'r gwaith o ymdrin ag ymholiadau gan gwsmeriaid/tenantiaid.
- Profiad o fonitro gwaith darparwyr gwasanaeth a datrys problemau'n ymwneud â pherfformiad gwael.
- Profiad o ddadansoddi problemau a llunio atebion effeithiol.
- Profiad o gaffael gwasanaethau gan ddarparwyr ar gyfer rhaglenni gwaith cynnal a chadw arfaethedig a chylchol.
- Profiad o weithio yn y sector cyhoeddus neu i gymdeithas dai. (D)

#### Sgiliau / Gwybodaeth

- Dealltwriaeth drylwyr o ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw arfaethedig a chylchol yn ogystal â chontractau gwasanaeth.
- Gwybodaeth am iechyd a diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth am reoli asbestos.
- Dealltwriaeth o dechnegau sy'n gysylltiedig â'r modd y caiff adeiladau eu codi.
- Gwybodaeth am ofynion safonau technegol sy'n ymwneud â chyflwr eiddo preswyl.

- Y gallu i gynhyrchu adroddiadau cynhwysfawr o safon er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n effeithiol.
- Yn barod i ddysgu Cymraeg i ALTE lefel 3 cyn pen 2 flynedd (i'r sawl nad yw'n siarad Cymraeg yn barod).
- Y gallu i sicrhau canlyniadau o fewn terfynau amser tynn a than bwysau.
- Sgiliau TG ardderchog.
- Y gallu i arwain a rheoli staff.
- Sgiliau cadarn o safbwynt trafod rhifau, rhesymu, a chyfathrebu ysgrifenedig.
- Y gallu i osod targedau perfformiad priodol a heriol i'w dîm ac i'w hun.
- Y gallu i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith cyflogi a darparu gwasanaethau.